**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 19:00 Nos Fawrth, 19 o Fawrth 2019 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Clifford Williams, Philip Roberts, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Alan Pritchard, Beca Brown, Meirwen Lloyd, Hefin Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Cemlyn Jones, Llywelyn Williams, Martin Jones

**Clerc:** Meirion Jones

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd);

Y Parchedig Robert Townsend (Eglwys yng Nghymru) ar gyfer eitem 367 yn unig

**362. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**363. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**364. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**365. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Chwefror 2019**

Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror 2019 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**366. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Nodwyd fod y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror wedi penderfynu ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder am nifer o ddiffygion problemau angen eu datrys. Hyd yma, doedd yr un o'r eitemau wedi eu gwneud. Adroddwyd fod copi o'r gwyn wedi ei anfon i'r Cynghorydd Charles Jones er gwybodaeth.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu eto gyda Cyngor Gwynedd i ofyn am ddatrysiad brys i'r cwynion ac anfon copi i'r Cynghorydd Charles Jones

**367. I dderbyn diweddariad gan y Parchedig Robert Townsend ar sefyllfa ddiweddara Eglwys Llanrug.**

Derbyniwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara parthed Eglwys Llanrug.

Adroddwyd fod yr Eglwys yn cynnal eu gwasanaethau nawr yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ac fod y trefniant yma yn gweithio yn dda iawn.

Eglurodd o ran yr Eglwys fod cyfrifoldeb am yr adeilad ar hyn y bryd yn parhau gyda'r ardal leol. Ar ôl mynd drwy'r drefn ffurfiol o gau'r Eglwys, bydd cyfrifoldeb am yr adeilad yn trosglwyddo i Gaerdydd.

Eglurodd ymhellach fod cofebion ar gyfer coffau y milwyr yn yr Eglwys ac fod angen ystyried cartref i rheini.

O ran mynwent yr Eglwys, mae cyfrifoldeb am y fynwent yn aros gyda'r Plwyf lleol a nhw fydd yn gyfrifol am y fynwent.

O ran opsiynau ar gyfer y dyfodol, mae sawl opsiwn i ystyried a byddai'r Eglwys yn cyd-weithio gyda'r Cyngor Cymuned wrth ymchwilio i'r gwahanol opsiynau. Gwnaeth sawl aelod godi'r pwynt o pe byddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd drosodd cyfrifoldeb am fynwent yr Eglwys, yna byddai rhaid ei chodi i safon a ddisgwylir gan y Cyngor. Eglurodd y Parchedig Robert Townsend mai dim ond tair gwaith y flwyddyn roedd y fynwent yn cael ei thorri ar hyn o bryd ac eglurodd mai fod cyfrifoldeb Caerdydd dim ond am yr adeilad ac fod fynwent a'r wal yn gyfrifoldeb y Plwyf lleol.

Pwysleisiwyd gan yr aelodau at y parchedig Robert Townsend, y pwysigrwydd o atgyweirio'r wal ar fyrder oherwydd ei chyflwr.

Dywedodd y Parchedig Robert Townsend y byddai yn anfon e bost tuag at y Cyngor gyda diweddariad a byddai yn fodlon dod i gyfarfod mis Mai o'r Cyngor.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i'r Parchedig Robert Townsend am fynychu'r cyfarfod i ddiweddaru'r Cyngor ar y sefyllfa.

**368. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa ffens cae chwarae Nant y Glyn**

Adroddwyd gan y Clerc fod hysbyseb wedi mynd allan ar gyfer tendr i drwsio neu adnewyddi ffens o cae chwarae Nant y Glyn. Roedd yr hysbyseb am y dendr wedi ei roi ar wefan y Cyngor, ar ein hysbysfyrddau ac ar wefan gymdeithasol 'Next Door'. Yn anffodus does dim un ymholiad wedi dod i law.

**Penderfynwyd:** Yn dilyn y diffyg ymateb, y Clerc i gysylltu a'n contractwyr i holi am bris i wneud y gwaith.

**369. I ystyried cais y Cynghorydd Mike Parry, Cyngor Tref Pwllheli sydd yn gofyn i Gynghorau Cymuned a Thref yn Wynedd ac Ynys Môn wrthwynebu bwriad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i gau adran argyfwng gwasanaeth**

**fasciwlar yn Ysbyty Gwynedd. (manylion eisoes wedi eu cylchredeg i aelodau)**

Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn cais gan y Cynghorydd Mike Parry o Gyngor Tref Pwllheli i ofyn am gefnogaeth y Cyngor i wrthwynebu cau adran argyfwng y gwasanaeth fasciwlar yn Ysbyty Gwynedd a'i symud i Ysbyty Glan Clwyd.

**Penderfynwyd:** Cysylltu a'r Cynghorydd Mike Parry i gefnogi ei ymgyrch

**370. I ystyried cais gan Jill Evans MEP ar ran CND Cymru yn gofyn i Gynghorau Cymuned a Thref ar draws Cymru ystyried gwrthwynebu claddu gwastraff niwclear yn eu ardal (manylion wedi eu cylchredeg).**

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Jill Evans MEP yn cefnogi ei chais ac fod y Cyngor yn gwrthwynebu'r syniad o gladdu gwastraff niwclear oddi fewn i'r gymuned.

**371. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Dim adroddiad ar gael oherwydd absenoldeb y cynrychiolydd.

**372. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard fod y rhybudd statudol i gau'r ysgol wedi roi fyny ac ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i gau'r ysgol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**373. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Cyllideb a Trethi**

Yn cyfarfod y Cyngor Llawn yn mis Mawrth penderfynwyd sefydlu cyllideb o **£248,013,890** ar gyfer 2019/20, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o **£176,551,790** a **£71,462,100** o incwm o'r Dreth Cyngor, gyda chynnydd o **5.8%** ar y dreth.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Ariannol, penderfynwyd peidio a gwneud rhai o'r arbedion oedd wedi eu cynllunio.

**Canolfannau Iaith**

Roedd y Cabinet wedi cynllunio i wneud arbediad o oddeutu £96 mil trwy ad-drefnu y gwasanaeth. Gofynnwyd y Cyngor iddynt ail ystyried, a sicrhau fod ddim dirywiad yn y gwasanaeth

**Is-ddeddfau draenio tir**

Y Cyngor llawn wedi cymeradwyo ac mabwysiadu yr is ddeddfau draenio tir. Prif ddiben yr is-ddeddfau newydd yw helpu'r prif awdurdodau atal llifogydd i fynd i'r afael â'r perygl mwyaf difrifol o lifogydd lleol drwy reoli'n well.

**Yn Lleol**

**Fan ac arwyddion tŷ allan i'r cae chware yn Cwm y Glo**

Adroddwyd fod fan wedi ei pharcio am fisoedd tu allan i'r cae chware heb tax arni. Hefyd roedd rhywun wedi bod yn ysgrifennu ar draws un o arwyddion yr heddlu sydd ar giât y cae chware.

Rhaid canmol y PCSO lleol Nia Roberts am ymateb mor brydlon a trefnu i'r van cael ei symud cyn y penwythnos ac hefyd trefnu arwydd newydd yn lle yr un gafodd ei falurio.

**Bryn Teg**

Rhai cwynion wedi eu derbyn eto. Ymddengys fod Rheolwyr y safle wedi newid eto, ac fod ddim cyfathrebu wedi bod rhwng y rheolwyr newydd a'r cyn reolwyr. Wedi cael cyfarfod hefo nhw hefo swyddog o'r Cyngor. Maent wedi ymrwymo i gyfathrebu yn well o hyn ymlaen.

**Cyffredinol**

Dim newydd pellach ar y cynlluniau i atal llifogydd.

Llwybr Pontrug i Llanrug - y diweddaraf yw bod ceisiadau am grant yn cael ei wneud, ac eu bod yn ei gyplysu hefo llwybr trwodd i Gaernarfon. Mwy o waith na'r disgwyl oherwydd bydd angen prynu tir hefyd. Gwaith yn mynd ymlaen gan y Cyngor Sir i uwchraddio y llwybr rhwng Llanberis a Penllyn trwy osod tarmac ar ei hyd.

**Penderfynwyd:** Diolch a derbyn yr adroddiad

**374. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Adroddwyd ei fod wedi cyfarfod a swyddogion o Gartrefi Cymunedol Gwynedd, ynghyd a thenantiaid Hafan Elan ar 12fed o Fawrth. Pwrpas y cyfarfod oedd i godi pryderon y trigolion am ddiffyg llefydd parcio ac i ofyn i CCG os fyddai bosib iddynt greu mannau parcio ychwanegol. Dywedodd un o reolwyr CCG y byddent yn ystyried hyn yn y tymor byr a'r hir a gwnaed addewid byddai'r tenantiaid yn cael eu diweddaru o unrhyw ddatblygiadau.

**Penderfynwyd:** Diolch a derbyn yr adroddiad

**375. I ystyried cais gan Mr Martin Kressman o Gwm y Glo i'r Cyngor Cymuned wneud gweithgaredd i gofnodi 150 o flynyddoedd ers y ffrwydrad yng Nghwm y Glo a gymerodd le ar 30 o Fehefin 1869.**

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Mr Kressman i'w hysbysu o benderfyniad y Cyngor i beidio cynnal unrhyw weithgaredd fel arddangosfa tan gwyllt gofnodi'r ffrwydrad ac ei hysbysu fod Menter Fachwen yn trefnu taith gerdded i nodi'r digwyddiad.

**376. I ystyried cais gan Mr Dave Rayner i osod banc ailgylchu tecstilau ar gyfer elusen SCOPE yn ardal Llanrug.**

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Mr Rayner i'w hysbysu mai penderfyniad y Cyngor oedd fod digon o fanciau tecstilau yn Llanrug a Cwm y Glo ar hyn o bryd, felly gwrthod ei gais.

**377. I ystyried a diweddaru cynllun aelodau ifanc ar y Cyngor**

Adroddwyd gan y Clerc nad oedd yr aelodau ieuenctid oedd ar y Cyngor wedi mynychu ers tipyn nawr ac fod ei tymor wedi dod i ben. Bydd angen i'r Cyngor benderfynu os yw am barhau a'r cynllun gan ystyried fod y cynllun yma wedi ei amlygu dros Gymru.

**Penderfynwyd:** I barhau gyda'r cynllun a'r clerc i symud ymlaen a gwneud y trefniadau priodol i apwyntio dau arall.

**378. Cais Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0172/23/LL

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** Minafon, Ceunant, Caernarfon, LL55 4RP

**Dyddiad Cofrestru:** 20-Chwef-2019

**Math o Gais:** Llawn – Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniadau, newidiadau a chodi sied / modurdy newydd

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**379. Cynllun grantiau gan Gyngor Gwynedd – symud ymlaen a prosiectau**

Adroddwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod Swyddog o Gyngor Gwynedd sydd wedi apwyntio i helpu Cynghorau Cymuned geisio am grantiau. Nodwyd fod yr aelodau wedi cael cynnig i cyfle i ddod a syniadau ymlaen ac fod rhai eisoes wedi eu derbyn.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r Swyddog i'w hysbysu o'r hyn sydd eisoes wedi eu awgrymu am nawr.

**380. Lleoliad cyfarfod mis Ebrill 2019**

**Penderfynwyd:** Cyfarfod mis Ebrill i'w gynnal yn Menter Fachwen, Cwm y Glo

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: